



Bwletin GwE



#Diolch



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru

Mae Gwobrau Addysgu Proffesiynol Cymru yn ôl ac, eleni, rydym yn edrych ymlaen at weld enwebiadau unigryw ysbrydoledig o ranbarth GwE i ddathlu'r gweithlu addysg rhagorol sydd wedi mynd y filltir ychwanegol i ddisgyblion, eu rhieni a'u staff. Trwy gydol y pandemig, mae ysgolion a gweithwyr addysg proffesiynol ledled Cymru wedi arloesi ac wedi parhau i ysbrydoli nid yn unig disgyblion a'u rhieni, ond y genedl.

Nawr yw'r amser i roi'r gydnabyddiaeth y maen nhw'n ei haeddu iddyn nhw trwy enwebu ar-lein fan hyn: www.llyw.cymru/gwobrauaddysgu

Mae yna 10 Gwobr: **Gwobr (newydd) Betty Campbell MBE** am hyrwyddo cyfraniadau a safbwyntiau cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig; Pennaeth y Flwyddyn; Defnyddio'r Gymraeg mewn Modd sy'n Ysbrydoli; Gwobr y Disgybl (neu'r Disgyblion) am yr Athro Gorau; Cefnogi Athrawon a Dysgwyr; Rheolwr Busnes Ysgol/Bwrsar; Gwaith Ieuenctid mewn Ysgolion a'r Gymuned; Athro'r Flwyddyn mewn Ysgol Uwchradd; Athro'r Flwyddyn mewn Ysgol Gynradd; Athro Newydd Eithriadol

Mae gennych tan hanner nos ar 23/11/2021 i enwebu.



Cynnig Proffesiynol GwE

Cynnig Proffesiynol GwE ar G6

Mae Cynnig GwE ar G6 yn cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnis ar gyfer y flwyddyn ysgol. **Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.** Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y [ddolen hon](#) a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau [yma](#).

Sicrhewch eich bod yn cofrestru ar G6 o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cychwyn.

08/11/2021-16/03/2022	Dyddiad	Cyfrwng
Ieithoedd Rhyngwladol yn y cynradd: sesiynau galw heibio i athrawon cynradd. Dyfodol Byd-eang GwE	11/11/2021	Dwyieithog
Hyfforddiant PACE a Sgiliau Perthynol ar gyfer Ysgolion a Sefydliadau	12/11/2021	Saesneg
Rhaglen genedlaethol Cynorthwyrwyr Addysgu wrth eu Gwaith (sesiwn gyntaf)	23/11/2021	Saesneg
Rhaglen genedlaethol Cynorthwyrwyr Addysgu wrth eu Gwaith (sesiwn gyntaf)	24/11/2021	Cymraeg
ANG - Rheoli Ymddygiad yn eich Ystafell Ddosbarth (Sesiwn 4, Cyfrwng Cymraeg)	24/11/2021	Cymraeg
ANG - Rheoli Ymddygiad yn eich Ystafell Ddosbarth (Sesiwn 4, Cyfrwng Saesneg)	25/11/2021	Saesneg
Y Rhestr Wirio Arsylwi	26/11/2021	Saesneg
Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen Tymor yr Hydref 2021, cyfrwng Saesneg	30/11/2021	Saesneg
ANG a Lles Disgyblion (Sesiwn 3, Cyfrwng Cymraeg) Dyddiad newydd	01/12/2021	Cymraeg
ANG a Lles Disgyblion (Sesiwn 3, Cyfrwng Saesneg) Dyddiad newydd	02/12/2021	Saesneg
Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen Tymor yr Hydref 2021, cyfrwng Cymraeg	02/12/2021	Cymraeg
Chwarae sy'n Seiliedig ar Berthynas	03/12/2021	Saesneg
ANG - Cwricwlwm i Gymru - Hyrwyddo Addysgeg (Sesiwn 5, Cyfrwng Saesneg)	07/12/2021	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	08/12/2021	Saesneg
Rôl yr Oedolyn Allweddol	10/12/2021	Saesneg
ANG - Cwricwlwm i Gymru - Hyrwyddo Addysgeg (Sesiwn 5, Cyfrwng Cymraeg)	10/12/2021	Cymraeg
ANG - Asesu Ffurfiannol a Rhaglen Shirley Clarke (Sesiwn 6, Cyfrwng Cymraeg)	12/01/2022	Cymraeg
Cyflwyniad i Ymddygiadau Amddiffynnol i gefnogi lles	14/01/2022	Saesneg
ANG - Asesu Ffurfiannol a Rhaglen Shirley Clarke (Sesiwn 6, Cyfrwng Saesneg)	14/01/2022	Saesneg
Hyfforddiant PACE a Sgiliau Perthynol ar gyfer Ysgolion a Sefydliadau	26/01/2022	Saesneg
Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma	16/02/2022	Saesneg
'Bioffilia' - 'Gwell mewn nag allan', Dr Coral Harper	09/03/2022	Saesneg
Hyfforddiant Arferion sy'n Wybodus am Drawma i Ymarferwyr Blynnyddoedd Cynnar	16/03/2022	Saesneg

Rhaglenni Cenedlaethol

Dyddiadau Dysgu Proffesiynol ANG 2021-2022

Mae'r sesiynau hyfforddi **rhanbarthol** ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso yn fyw ar G6 bellach. Noder, yn benodol, y dyddiadau newydd ar gyfer ANG a Lles Disgyblion. Am ragor o fanylion a dyddiadau, gweler uchod o dan Cynnig Proffesiynol GwE, [yma](#) ac ar G6.

Recordiadau a fideos hyfforddiant cenedlaethol ANG 2021-22

RECORDIAD CYMRAEG	RECORDIAD SAESNEG
ANG Sesiwn 1 (Cymraeg)	NQT Session 1 (English)
Sesiwn 1 Mentor Sefydlu (Cymraeg)	Induction Mentor Session 1 (English)
Hyfforddiant Gwirwyr Allanol (Cymraeg)	External Verifier Training (English)



Rhaglen Datblygu Darpar CALU

Lansiwyd **Cylch 4** y Rhaglen Datblygu Darpar CALU ym Medi 2021. Mae'r dyddiad cau ar gyfer ymgeisio wedi'i ymestyn i **26 Tachwedd 2021**. Cliciwch [yma](#) am wybodaeth am y Rhaglen a sut i ymgeisio. Cewch ragor o fanylion yn y [fideo](#).

Rhaglen genedlaethol i Gynorthwywyr Addysgu wrth eu Gwaith

Mae'r **Rhaglen genedlaethol i Gynorthwywyr Addysgu wrth eu Gwaith** ar gyfer rhai sydd gyda mwy na dwy flynedd o brofiad, ac a fyddai'n croesawu cael gwybod beth yw'r diweddaraf am y newidiadau i gyd-destun y proffesiwn.

Bydd y Rhaglen yn cynnig gwybodaeth yn ymwneud â'r safonau proffesiynol, strategaethau perthnasol cyfredol i gefnogi eu hymarfer, Cwricwlwm i Gymru a dewis o syniadau a strategaethau i ysbrydoli proffesiynoldeb yn ôl yn yr ysgol.

Cyflwynir y rhaglen drwy TEAMS dros 4 sesiwn (dwyr awr), gan ddechrau ar **23/11/2021** (cyfwrng Saesneg) neu **24/11/2021** (cyfwrng Cymraeg) rhwng 1.15yp a 3.15yp.

Cofrestrwch drwy G6. Telir costau llanw.

Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwywyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwywyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion am sut i gofrestru, [cliciwch yma](#).



Newyddion a Gwybodaeth GwE

TEDx GwE: Cyfri'r Dyddiau Cyn COP26

Diolch yn fawr iawn i'r holl ysgolion a gymerodd ran yn y digwyddiad TEDxGwE ar 1/11/21. Roedd yn ddiwrnod gwych!

Diolch arbennig i'r holl ddisgyblion am y gwaith ymchwilio i'r testunau, a'r ddealltwriaeth ragorol o feysydd cymhleth. Rhannwyd negeseuon yn glir iawn â'r gynulleidfa. Diolch yn ddiffuant iawn i'r athrawon am eu gwaith gwych ac i lolo Williams am gadeirio'r digwyddiad.



Rhwydwaith Cyfnod Sylfaen Tymor yr Hydref 2021

SESIWN CYFRWNG CYMRAEG: ☐ 2/12/2021 ⌚ 15:45–17:00

SESIWN CYFRWNG SAESNEG: ☐ 30/11/2021 ⌚ 15:45–17:00

Ffocws – Trafod y modiwlau isod a fydd yn cefnogi Cwricwlwm i Gymru:

- Dysgu yn yr Awyr Agored
- Datblygiad Plentyn
- Trosglwyddo
- Arsylwi
- Chwarae a Dysgu drwy Chwarae
- Dysgu Dilys a Phwrpasol

Cofrestrwch drwy G6.



Gweithdy ar-lein: Ymglyfarwyddo â MDA Ph Mathemateg a Rhifedd

Mae'r gweithdy ar-lein hwn AM DDIM ac yn addas i athrawon Mathemateg ysgolion cynradd ac uwchradd y rhanbarth.

Dr Gareth Evans, Pennaeth Mathemateg Ysgol Y Creuddyn fydd yn arwain y sesiwn.

Ffocws y gweithdy yw crynhoi'r newidiadau ym maes dysgu a phrofiad mathemateg a rhifedd, cyn awgrymu tasgau a thechnegau ar gyfer datblygu'r hyfedreddau mathemategol sy'n rhan allweddol o'r cwricwlwm newydd.

I gofrestru ar y gweithdy, cwblhewch y ffurflen gofrestru **erbyn Dydd Mercher 10/11/21**. Anfonir dolen 'zoom' at bawb sydd wedi cofrestru.

Cyfrwng Cymraeg: 15 Tachwedd 16:00 - 17:00 [Ffurflen Gofrestru](#)

Cyfrwng Saesneg: 22 Tachwedd 16:00 - 17:00 [Ffurflen Gofrestru](#)

Dyfodol Byd-Eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol

Am ragor o wybodaeth neu am gymorth gyda'r eitemau isod, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

Canolfan Cefnogaeth GwE: [Ieithoedd Rhyngwladol – Sector Cynradd](#) a sector Uwchradd: gwybodaeth, arweiniad, cyfleoedd ac adnoddau

Cymraeg: <http://cefnogaeth.gwegogledd.cymru/adnoddau-gwe/pynciau-allgradd-adnoddau-gwe/>

SECTOR CYNRADD

Dysgu Proffesiynol Dyfodol Byd-eang GwE i athrawon cynradd: gwreiddio ieithoedd rhyngwladol yn y cwricwlwm.

Ymunwch â thîm PowerLanguage mewn sesiwn ymarferol ar ddysgu ac addysgu iaith wrth i chi baratoi a chynllunio ar gyfer ieithoedd rhyngwladol o fewn CIG 2022. Cewch archwilio syniadau newydd o Lwyfan PowerLanguage gan gynnwys adnoddau newydd sy'n gysylltiedig â COP 26! Bydd y sesiwn hwn yn fodd i athrawon ddatblygu syniadau a gwella hyder wrth gyflwyno ieithoedd rhyngwladol yn eu cwricwlwm. Ble bynnag ydych chi ar eich taith mae croeso i bawb i'r sesiwn, ac edrychwn ymlaen at eich gweld chi ar **22/11/21 o 15:45 tan 16:45**. Cliciwch yma i gofrestru: <https://pwlgl.link/3BiMluu>

SECTOR UWCHRADD

Cyfarfodydd Rhwydwaith Dyfodol Byd-Eang GwE ITM ANG

Mae ANG ITM mewn ysgolion uwchradd bellach yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu syniadau, cael cymorth a datblygu arferion.


Cyfarfod nesaf: 18/11/21 3.45pm

NEWYDDLLEN ITM DYFODOL BYD-EANG:

UWCHRADD: [Cymraeg](#) | [Saesneg](#)

CYNRADD: [Cymraeg](#) | [Saesneg](#)

Newyddion a Gwybodaeth Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol



Lansiad Gwefan 'Cornel Cerddi TGAU'

Dewch i lansiad gwefan 'Cornel Cerddi TGAU' fore Mawrth, 16/11/2021 am 9:15yb - gwefan ryngweithiol newydd ac adnoddau dysgu gan weithgor o athrawon i gefnogi dysgwyr i astudio a mwynhau'r cerddi gosod TGAU Llenyddiaeth Gymraeg - mae'r cyfan yn ffrwyth cydweithio cenedlaethol!

[Cofrestrwch yma.](#)



Pecyn E-Ddysgu Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl

Mae Partneriaeth Llesiant y Consortia wedi gweithio gyda @MindCymru i ddarparu mynediad at becyn e-ddysgu ymwybyddiaeth iechyd meddwl 45 munud ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru.

Bydd y rhaglen hunan-gyfeiriedig hon—i wella dealltwriaeth a chodi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl—yn fyw am y 22 mis nesaf. Nid oes angen cyfrinair na manylion mewngofnodi i gael mynediad at yr e-ddysgu.

Mae'n agored i bawb ym maes Addysg: Cymorthyddion, Llywodraethwyr, Athrawon, LIC, ESTYN, NAEL, ALLau ayb. Os ydych chi'n gweithio ym maes Addysg, rydych chi'n gymwys i ddilyn y rhaglen ar-lein hon.

Am ragor o fanylion a mynediad:

https://sewaleseas.org.uk/cymraeg/wp-content/uploads/sites/2/2021/10/MIND-Mental-Health-Awareness-E-Learning-Module_welsh.pdf

<https://tinyurl.com/EAS-MindCymru-MentalHealth>

Gwybodaeth ac Arweiniad gan Eraill

Blether Rhyngwladol: 'Disgleirio Golau ar Arweinyddiaeth Ganol'



📅 22/11/2021 ⌚ 16:00–17:00

Mae arweinwyr canol yn rhan annatod o amgylchedd yr ysgol. Gallant ddal swydd ffurfiol neu anffurfiol, ond efallai na fydd yn bosibl creu un model cyffredinol o arweinyddiaeth ganol, felly pwy yw'r arweinwyr canol a sut wnaethon nhw gyrraedd yno?

Ymunwch â'n Blether Rhyngwladol a chlywed gan chwe arweinydd canol o bob rhan o Iwerddon, yr Alban a Chymru wrth iddynt rannu eu meddyliau, eu profiadau a'u heriau o'u rolau. Mae'r Blether Rhyngwladol hwn wedi'i gynllunio ar gyfer holl ymarferwyr addysgol, waeth beth fo'u cyfnod gyrfa neu eu sefydliad.

Mae'r Cydweithrediad Tair Gwlad hwn rhwng y Ganolfan Arweinyddiaeth Ysgolion, Iwerddon, Addysg yr Alban a'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru yn rhad ac am ddim ac yn agored i bawb.

Rhaid cadw lle - <https://nael.cymru/cy/events/international-blether-shining-a-light-on-middle-leadership/>

Ffilm yn y Cwricwlwm - dysgu drwy ac am ffilm gydag Into Film



Mae rhaglen gyfoethog Into Film yn cynnwys adnoddau addysgu a hyfforddiant ar-lein sy'n eich helpu i integreiddio dysgu drwy ac am ffilm o fewn yr ysgol a chynigir sesiynau gyrfaol, dangosiadau sinema a chefnogaeth i gynnal clwb ffilm.

Ar ben hyn, mae ein system ffyrddio (Into Film+) a'n catalog eang o ffilmiau byr ac annibynnol yn ysbrydoli ac yn ysgogi dysgwyr wrth gyflwyno gwahanol themâu; o archwilio Stori Cymru i ddysgu am newid hinsawdd; o gynnwys am wrth-fwlio i ffilmiau am wahanol wledydd a diwylliannau.

Wrth ichi gynllunio a pharatoi eich darpariaeth Cwricwlwm i Gymru beth am ichi fanteisio ar ein gwasanaeth rhad ac am ddim* a datgloi pŵer ffilm yn y dosbarth.

I drafod a chael cyngor pellach - anfonwch e-bost i non.stevens@intofilm.org – www.intofilm.org

*costau trwydded PVSL yn ôl y galw.

Menter MIT Global Teaching Labs yng Nghymru



Ar ran Llywodraeth Cymru, bydd [Equal Education Partners](https://www.equalpartnership.org/) yn cynnal [MIT Global Teaching Labs yng Nghymru](https://www.mitteachinglabs.org/) eto eleni, gyda'r rhaglen graidd yn cael ei chynnal o 4 Ionawr hyd 28 Ionawr. Rydym am glywed gan ysgolion a cholegau yng Nghymru sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn y fenter gyffrous, arloesol ac er effaith hon.

Yn ogystal â chroesawu hyfforddwr o MIT (prifysgol gwyddoniaeth a thechnoleg fwyaf blaenllaw y byd) i gyflwyno gweithdai a dosbarthiadau meistr i fyfyrwyr a'u tiwtora, mae'r prosiect eleni yn cynnig cyfle i weithio gydag arbenigwr MIT ar gynllunio a datblygu cwricwlwm, yn unol ag amcanion Cwricwlwm i Gymru.

Mae mwy o wybodaeth am y rhaglen yng Nghymru ar gael ar wefan y rhaglen mitglwales.online a gallwch wyllo ein fideo am y rhaglen o 2020 [yma](https://www.youtube.com/watch?v=yma).

I ymgeisio, ewch i'r ffurflen gais <https://equaleducation.typeform.com/to/QSmm0Cpn> a'i chyflwyno erbyn **dydd Gwener 12**

Tachwedd 2021.



Cyfleoedd newydd yn agor fel rhan o waith Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau

Mae'n bleser gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru gyhoeddi bod ceisiadau bellach ar agor ar gyfer cronfeydd **Ewch i Weld** ac **Ewch i Greu**, fel rhan o raglen Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.

Gall ysgolion wneud cais am grantiau bach o hyd at £1,000 i ariannu ymweliadau unigol â digwyddiadau celfyddydol a diwylliannol mewn lleoliadau ledled Cymru.

Gall ysgolion hefyd wneud cais am grant o £1,000 i weithio gydag ymarferydd creadigol am bedwar diwrnod i'w cefnogi i ddarparu dulliau creadigol o ymgysylltu â dysgwyr.

[Cliciwch yma i dderbyn yr holl wybodaeth ynglŷn â'r ddwy gronfa.](#)


Cyrsiau ar-lein i rieni: Cynorthwyo eich plentyn gyda mathemateg / Cynorthwyo eich plentyn i ddarllen

Bu'r cwrs ar-lein Cynorthwyo eich Plentyn i Ddarllen yn boblogaidd gyda rhieni ac mae croeso i rieni Cyfnod Sylfaen ymuno â'r cwrs hwn ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr. Yn ychwanegol, bydd cwrs Cynorthwyo eich Plentyn gyda Mathemateg, cwrs ar-lein a fydd yn rhoi syniadau i rieni Cyfnod Sylfaen ymarfer rhifedd gartref a deall sut mae eu plentyn yn dysgu yn yr ysgol. Rhagor o fanylion [yma](#).

Adnoddau Cymraeg ar Hwb - gan athrawon, i athrawon


Hanfod Y Pair Bach (cynradd), Y Pair (uwchradd) a'r Gist (ail iaith uwchradd) yw annog athrawon o bob rhan o Gymru i rannu adnoddau cyfrwng Cymraeg. Mae croeso i chi osod adnoddau ynddynt yn ogystal â defnyddio'r rhai mae eraill yn eu gosod.

Y Pair Bach



<https://tinyurl.com/Hwb---Y-Pair-Bach>

Y Pair



<https://tinyurl.com/Hwb---Y-Pair>

Y Gist



<https://tinyurl.com/Hwb---Y-Gist>

Miwsig y Siarter Iaith: Awr o gerddoriaeth gyfoes Gymraeg i gyd-fynd â'r Siarter Iaith. Yn wrando perffaith gartref, mewn clybiau a chymdeithasau, aelwydydd ac ysgolion: <https://www.bbc.co.uk/programmes/m0011dgg>

Y Newyddion Gwyddoniaeth Cynradd diweddaraf
gan Gweld Gwyddoniaeth: <https://www.gweld-gwyddoniaeth.co.uk/whats-on/news/>



Carlam Cymru 2021-2022

Bydd [Carlam Cymru](#) yn dychwelyd ar gyfer 2021/22 gyda sesiynau byw ar gael i fyfyrwyr TGAU yn ystod yr Hydref, a myfyrwyr TGAU, Uwch Gyfrannol, a Safon Uwch yn y Gwanwyn. Cynhelir y digwyddiadau byw yn ystod tymor yr Hydref ar ôl ysgol am bedair wythnos, gan ddechrau ar 15 Tachwedd, a byddant yn canolbwyntio ar y pynciau craidd – [Amserlen Hydref](#).

Bydd myfyrwyr ledled Cymru yn gallu cael mynediad AM DDIM i'r digwyddiadau byw hyn gartref, a byddant hefyd yn cael eu recordio a'u rhoi ar wefan e-sgol. Gall ysgolion, athrawon a myfyrwyr ddefnyddio'r digwyddiadau byw hyn i atgyfnerthu ac adolygu'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn eu hysgolion. Ewch i wefan e-sgol a chliciwch ar 'Carlam Cymru' am fwy o wybodaeth www.e-sgol.cymru

post@gwegogledd.cymru

